# CYSWLLT Y WEITHREDWR



## Annwyl gydweithiwr,

05/12/2022

Wrth i ni gamu i fis Rhagfyr rydym yn cyrraedd cyfnod lle bydd pwysau'r gaeaf yn dechrau cyrraedd uchafbwynt, rydym yn wynebu gweithredu diwydiannol gan y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) ar y 15$^{\text{fed}}$ a'r 20$^{\text{fed}}$ o Ragfyr ac mae nifer yr achosion o'r ffliw yn dechrau cynyddu. Er gwaethaf y pwysau a'r heriau hyn, mae pethau y gallwn ni i gyd eu gwneud o hyd i ysgafnhau'r baich ar y GIG. Un peth y gallwn ni i gyd ei wneud yw sicrhau ein bod wedi cael brechiad atgyfnerthu COVID-19 a brechiad rhag y ffliw, fel y nodir yn nes ymlaen.

Rydym yn gwybod bod cydweithwyr sy'n wynebu pwysau'r gaeaf eisoes yn flinedig iawn ar ôl yr heriau a gyflwynwyd yn gyntaf gan y pandemig, ac yna gan yr angen i wella ar ôl effaith y pandemig. Hoffem gydnabod a diolch i chi i gyd am eich gwaith caled parhaus i roi buddiannau ein cleifion yn gyntaf. Rydym wedi derbyn gohebiaeth yn ddiweddar gan y Prif Swyddogion Nyrsio a'r Prif Swyddogion Meddygol ar draws y pedair gwlad, Prif Weithredwr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, Prif Weithredwr y Cyngor Meddygol Cyffredinol a Phrif Weithredwr Comisiwn Ansawdd Gofal Ysbytai. Yn yr ohebiaeth, maent wedi diolch am y proffesiynoldeb a'r ymrwymiad y mae pob un ohonoch yn ei ddangos yn ystod amseroedd anodd o'r fath, a'u hyder ym mhob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i barhau i wneud eu gorau glas i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Oherwydd y cyhoeddiad am weithredu diwydiannol gan y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) ddydd Iau 15 Rhagfyr a dydd Mawrth 20 Rhagfyr, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn datblygu cynlluniau i gynnal diogelwch a gofal cleifion lle bo hynny'n bosibl.

Yn ystod unrhyw gamau gweithredu, mae'r RCN wedi ymrwymo i sicrhau bod cynnal diogelwch cleifion wrth wraidd unrhyw weithredu diwydiannol.

Mae ein timau'n cysylltu'n agos ag aelodau lleol y Coleg Nyrsio Brenhinol yn ystod y cyfnod yn arwain at ddyddiadau'r streic er mwyn sicrhau y gallwn gynnal diogelwch cleifion a tharfu cyn lleied â phosibl ar wasanaethau critigol.

Yn anffodus, er mwyn i ni allu parhau i ddarparu gofal priodol ar gyfer ein cleifion mwyaf sâl a chynnal gofal brys a chritigol yn ystod y cyfnodau hyn, rydym wedi gwneud y penderfyniad anodd i ganslo apwyntiadau a thriniaethau cleifion allanol nad ydynt yn rhai brys ond rydym wedi ymrwymo i barhau i ddarparu gofal canser brys.

Rydym yn gwerthfawrogi y gallai hyn fod yn rhwystredig i'n grwpiau cleifion, yn enwedig pan fu arosiadau hir am driniaeth, ond rydym yn gobeithio bod y cyhoedd yn deall bod angen i ni gadw gwasanaethau'n ddiogel.

Cysylltir â phob claf sy'n disgwyl triniaeth neu apwyntiadau ar naill ai 15 Rhagfyr neu 20 Rhagfyr drwy neges destun i'w hysbysu os bydd eu hapwyntiad yn mynd yn ei flaen neu os caiff ei ganslo. Bydd unrhyw apwyntiadau sy'n cael eu canslo yn cael eu haildrefnu a byddwn yn cysylltu â chleifion gyda dyddiad newydd. Bydd llythyrau dilynol yn cael eu hanfon yn y post i gadarnhau hyn a gall ein timau hefyd gysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt dros y ffôn.

Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn parchu hawl cydweithwyr i gymryd rhan mewn streic gyfreithlon, neu ei chefnogi, mewn modd heddychlon a diogel. Rydym yn cydnabod pam mae llawer o gydweithwyr wedi pleidleisio o blaid streicio ac yn cydnabod bod hwn yn gyfnod heriol i lawer gyda phwysau parhaus y gaeaf ynghyd â chynnydd mewn costau byw.

Ar draws y DU, mae galw sylweddol ar Wasanaethau Gofal Dwys Plant ac, o ganlyniad, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn wynebu pwysau am welyau o fewn ei Uned Gofal Dwys Pediatrig (PICU). Mae hyn yn sgil cynnydd yn nifer yr achosion o salwch anadlol feirysol ymhlith plant sy'n arwain at gynnydd yn nifer y plant sydd angen triniaeth o fewn gofal critigol.

Er mwyn sicrhau bod ein cleifion mwyaf sâl yn derbyn gofal diogel priodol, bydd gofyn i'n timau clinigol wneud rhai penderfyniadau anodd yn ystod yr wythnosau nesaf a allai gynnwys canslo llawdriniaethau dewisol a throsglwyddo plant sy'n ddifrifol wael i unedau eraill yn y DU.

Mae ein timau yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gynnal capasiti ond mae rhoi blaenoriaeth i ddiogelu'r plant mwyaf sâl o fewn Ysbyty Plant Cymru yn hollbwysig. Efallai y bydd angen i ni ganslo mwy o driniaethau nag yr hoffem er mwyn parhau i drin pob plentyn sâl sydd angen cymorth gofal critigol ar yr adeg hon. Bydd pob penderfyniad yn cael ei wneud ar sail glinigol unigol ac rydym yn ymddiheuro am unrhyw bryder y gallai cleifion a'u teuluoedd ei brofi os caiff eu triniaeth ei gohirio.

Yn anffodus, nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i Gymru ac mae Unedau Gofal Dwys Pediatrig ym mhob rhan o'r DU yn wynebu galw uchel ynghyd â heriau o ran y gweithlu.

Hoffem sicrhau cleifion a'u teuluoedd bod ein timau'n gweithio'n ddiflino i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'n cleifion, a bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu hadolygu'n wythnosol i fonitro capasiti. Rydym yn gwerthfawrogi eich dealltwriaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch i gydweithwyr ar draws ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n parhau i ofalu am y boblogaeth er gwaethaf yr heriau parhaus.

## Cofiwch amddiffyn eich hun y gaeaf hwn gyda brechiad rhag y ffliw

Mae nifer o achosion o'r ffliw yng Nghymru ar hyn o bryd, a chael eich brechu yw'r amddiffyniad gorau rhag salwch difrifol. Y gaeaf hwn, rydym ni'n annog pawb sy'n gymwys i dderbyn y cynnig i gael eu brechiad er mwyn amddiffyn eu hunain, eu hanwyliaid a'r gymuned leol.

Os ydych yn aelod o staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mae sawl ffordd y gallwch gael eich brechlyn rhag y ffliw. Mae hyn yn cynnwys sesiynau brechu rhag

y ffliw dros dro sy'n cael eu cynnal ar draws safleoedd y Bwrdd Iechyd, [i gael rhagor o wybodaeth gan gynnwys dyddiadau ewch i SharePoint.]

Os ydych yn aelod o'r cyhoedd ac yn gymwys i gael brechiad rhag y ffliw, byddwch yn cael eich brechiad yn eich practis meddyg teulu lleol neu Fferyllfa Gymunedol. Rydym yn eich cynghori i wirio trefniadau rhoi'r brechlyn rhag y ffliw gyda'ch Practis Meddyg Teulu neu Fferyllfa Gymunedol leol, a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi ar sut i drefnu eich brechlyn.

I gael rhagor o wybodaeth am raglen ffliw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro [ewch i'n gwefan], a gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y brechlyn rhag y ffliw gan gynnwys a ydych yn gymwys ar [wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.]

## Penodi Cyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi tri aelod o staff yn ddiweddar i rolau Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer Addysg Feddygol, Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer y Gweithlu a Chyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch.

Penodwyd Dr Martin Edwards, Meddyg Ymgynghorol Pediatreg, yn Gyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer Addysg Feddygol. Mae Martin wedi bod yn Feddyg Ymgynghorol gyda'r Bwrdd Iechyd ers 2015 ac mae wedi bod yn Arweinydd y Gyfadran, Cyfarwyddwr Clinigol Cynorthwyol a'r Arweinydd Blinder a Chyfleusterau. Yn y rôl newydd hon, bydd Martin yn gyfrifol am gynnal a datblygu hyfforddiant addysg feddygol o ansawdd uchel ar draws y Bwrdd Iechyd.





Martin Edwards

Assistant Medical Director for Medical Education

Michael Stephens

Assistant Medical Director for Medical Workforce

Ar 1 Rhagfyr 2022, bydd Mr Michael Stephens, Meddyg Ymgynghorol Arenneg a Thrawsblaniadau yn ymgymryd â'r rôl fel Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer y Gweithlu, a bydd yn gyfrifol am gynnal a datblygu pob agwedd ar y gweithlu meddygol, recriwtio, lleoli, cadw staff ac ymddygiad staff. Mae Michael wedi bod yn Feddyg Ymgynghorol ers 2010 ac mae wedi cyflawni'r rolau canlynol, Arweinydd Clinigol Trawsblaniadau a Mynediad Fasgwlaidd, Cyfarwyddwr Rhaglen Hyfforddi ar gyfer Llawfeddygaeth Gyffredinol a Chyfarwyddwr Clinigol.

Bydd Dr Aled Roberts yn ymgymryd â rôl y Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol ar gyfer Ansawdd a Diogelwch sy'n cynnwys cyfrifoldeb am gynnal a datblygu pob agwedd ar Lywodraethu Clinigol a Diogelwch Cleifion ar draws y sefydliad. Mae Aled wedi bod yn



Feddyg Ymgynghorol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ers 2009 ac mae hefyd yn Gyfarwyddwr y Bwrdd Clinigol ar gyfer Meddygaeth.

## Dathlu Gwasanaeth Canser Niwroendocrin De Cymru a Chronfa Canser Niwroendocrin

Mae canserau niwroendocrin (NETs) yn brin ond yn dod yn gynyddol gyffredin, ac maent yn ganserau sy'n tyfu'n araf ar y cyfan, er y gall rhai fod yn ymosodol (carsinomâu niwroendocrin). Yn deillio o wahanol organau'r corff, maent yn tarddu fwyaf cyffredin yn y llwybr gastroberfeddol. Maent yn amrywiol, yn gymhleth ac yn gofyn am ofal unigol ac arbenigol.

Caiff cleifion eu hatgyfeirio at wasanaeth NET De Cymru gyda thrafodaeth gychwynnol yng nghyfarfod tîm amlddisgyblaethol De Cymru yng Nghaerdydd. Mae'r gofal a ddarperir yn cynnwys asesiad diagnostig manwl gywir, rheoli symptomau cyfannol gan gynnwys maeth, prawf gwaed neu fonitro biofarciwr, sganiau gwyliadwriaeth, adolygiadau clinigol ac amrywiaeth o therapïau neu lawdriniaeth, os yw'n briodol.

Arweinir y gwasanaeth gan Dr Mohid Khan, Gastroenterolegydd Ymgynghorol, ac mae'n cynnwys tîm amlddisgyblaethol dawnus.

Ym mis Hydref, ymunodd y digrifwr Adam Kay â chleifion a staff i ddathlu Gwasanaeth Canser Niwroendocrin De Cymru, sydd wedi ennill sawl gwobr, a chefnogi'r Gronfa Canser Niwroendocrin. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Ngwesty'r Vale yn Hensol a bu aelodau o Wasanaeth Canser Niwroendocrin De Cymru a'i gleifion yn rhannu eu profiadau o'r gwasanaeth a'i drawsnewidiad dros y pum mlynedd diwethaf.

Dysgwch fwy am Gronfa Canser Niwroendocrin Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.

## AWMSG yn nodi 20 mlynedd o ddarparu mynediad cyflym a diogel at feddyginiaethau i gleifion o Gymru

Daeth llu o siaradwyr, cynrychiolwyr a staff ynghyd i ddathlu 20 mlynedd o waith Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn darparu cyngor ar feddyginiaethau newydd eu trwyddedu gan sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael mynediad cyflym at feddyginiaethau newydd.

Bu'r pwyllgor cynghori hwn gan Lywodraeth Cymru, a gefnogir gan Ganolfan Therapiwteg a Thocsicoleg Cymru Gyfan (AWTTC), sy'n rhoi cyngor ar feddyginiaethau newydd ac yn datblygu canllawiau presgripsiynu ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn nodi carreg filltir yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 17 Tachwedd.










Cafwyd araith ysbrydoledig ac angerddol gan Jermaine Harris a siaradodd yn y gynhadledd ar ba mor bwysig yw gwaith AWMSG gan fod ei fab Fraizer wedi cael diagnosis o ffeibrosis systig ag yntau ychydig dros dair wythnos oed. Mae'r golffiwr brwd, sydd bellach yn saith oed, yn cymryd 50 tabled y dydd ar gyfer ei 'arch bŵer', fel y mae'n ei alw, i reoli'r cyflwr. Siaradodd Jermaine am ei werthfawrogiad i AWMSG, GIG Cymru, meddygon a gwyddonwyr sydd wedi ei gwneud hi'n bosibl i'w fab gael y driniaeth hon i ganiatáu iddo fyw bywyd normal.

Yn y gynhadledd, bu'r staff hefyd yn cofio am gydweithiwr dawnus, hoffus, y mae colled fawr ar ei hôl, Nicola Wheatley, dan arweiniad Dr Laurence Gray a dalodd deyrnged i'w gwaith rhagorol i'r Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol o fewn AWTTC.

## Cefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth o Wrthfiotigau y Byd (WAAW) ar draws y Bwrdd Iechyd

Yn ddiweddar gwnaeth y Bwrdd Iechyd gefnogi Wythnos Ymwybyddiaeth o Wrthfiotigau y Byd, i godi ymwybyddiaeth o ymwrthedd i wrthfiotigau ac annog arfer gorau ymhlith y cyhoedd a gweithwyr iechyd.



Mae ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR) yn parhau i fod yn un o'r bygythiadau mwyaf sy'n ein hwynebu heddiw ac mae gwarchod gwrthfiotigau cyn hired â phosibl yn hollbwysig.

O fewn gofal eilaidd, gwnaeth y tîm ganolbwyntio ar annog egwyddorion Start Smart Then Focus a 'newid gwrthfiotigau mewnwythiennol i'r geg . Mae'r dull "Start Smart Then Focus" o ragnodi gwrthfiotigau yn helpu i gefnogi rhagnodwyr a staff clinigol eraill i ragnodi cyffuriau gwrthficrobaidd yn briodol a sicrhau adolygiad prydlon.

Mae newid o wrthfiotigau mewnwythiennol i wrthfiotigau trwy'r geg yn cynnig llawer o fanteision i gleifion, y system gofal iechyd a'r amgylchedd:

- Lleihau'r risg o heintiau llif gwaed sy'n gysylltiedig â phibellau
- Lleihau'r risg o lid y gwythiennau
- Cynyddu boddhad a chysur cleifion
- Cyflymu'r broses o ryddhau o'r ysbyty
- Gostyngiad mewn costau
- Mwy cynaliadwy (llai o wastraff plastig yn gysylltiedig â gwrthfiotigau trwy'r geg)
- Lleihau llwyth gwaith nyrsys

## Fideos Adfent

Yr wythnos diwethaf, dechreuon ni rannu ein cyfres o Ddarlleniadau a Myfyrdodau Adfent ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Mae ein fideos byr wedi cael eu datblygu gan ein Hadran Gaplaniaeth i'ch helpu i deithio drwy'r Adfent tuag at y Nadolig a gŵyl Ystwyll.



Dechreuodd y Parchedig Andy Gibbs y gyfres gyda darlleniad o Eseia 2:1-5, Salm 122, Rhufeiniaid 13:11 -14 a Mathew 24:36 -44 a dydd Sul, bu'n myfyrio ar Rodd Maddeuant.

Bob dydd Mercher, bydd darlleniad newydd yn cael ei ryddhau ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â myfyrdod byr a gweddi ddydd Sul.

Gallwch wylio ein fideos Adfent ar ein tudalennau YouTube, Facebook a Twitter. Bydd y darlleniadau a'r myfyrdodau hefyd yn cael eu chwarae ar sianeli radio'r ysbyty ar rai o'n safleoedd.

## Her 24Hrs4Charli ar gyfer y Gronfa Bywyd Gwell

Llongyfarchiadau enfawr i Will Millis a Tom Millis am gwblhau her 24Hrs4Charli drwy redeg llwybr 10k Richard Burton yn barhaus am 24 awr a chodi'r swm gwych o £4,026.00 ar gyfer y Gronfa Bywyd Gwell er cof am eu cefnder Charli Davies a gafodd ddiagnosis o Ffeibrosis Systig yn 2 oed.

healthcharity.wales/24hrs4charli-challenge-for-better-life-fund/

## Tîm yr Elusen Iechyd yn ymweld â phaentiad arbennig Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn RMA Sandhurst

Bydd llawer o aelodau o staff presennol a blaenorol a chleifion Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn cofio'n annwyl y paentiad 'Gofalu am Filwyr Clwyfedig yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd yn ystod y Rhyfel Mawr' pan oedd yn hongian ger prif fynedfa'r Ysbyty Brenhinol. Gwahoddwyd aelodau o Dîm yr Elusen Iechyd i weld y paentiad yn RMA Sandhurst, lle mae ar fenthyg, a lle y gellir gofalu amdano, ei ddiogelu ac ymchwilio iddo'n haeddiannol.

cardiffandvale.art/2022/11/16/the-health-charity-team-visit-beloved-cardiff-royal-infirmary-painting-at-rma-sandhurst